

## Cynllun gofod hysbysebu i gefnogi ymdrechion Covid

Er mwyn cefnogi'r elusennau a'r cwmnïau sy'n gwneud gwaith arwrol yn ystod argyfwng Covid, mae S4C yn bwriadu rhannu newyddion am ei ymdrechion ar y sianel.

Mae S4C yn cynnig gofod hysbysebu yn rhad ac am ddim i elusennau sydd wedi eu lleoli, neu'n gweithredu ar lefel Cymreig ac yn cynnig cymorth i bobl yn ystod yr argyfwng. Mae hefyd yn cynnig cyfraddau gostyngedig i gwmnïau yng Nghymru er mwyn hyrwyddo eu hymdrechion Covid.

Ac er mwyn annog hysbysebu yn y Gymraeg mae'r sianel wedi penderfynu ymestyn ei gymhorthdal ar gyfer hysbysebion Cymraeg i'r cynllun.

Dywed Prif Weithredwr S4C, **Owen Evans**, "Fel darlledwr cyhoeddus ni am ddangos ein cefnogaeth i'r elusennau a'r cwmnïau hynny sydd yn cynorthwyo pobl yn ystod y dyddiadau helbulus hyn. Felly gyda'n hasiant gwerthiant, Sky Media, rydym wedi penderfynu gwneud 10% o'n munudau hysbysebu dyddiol ar gael er mwyn tynnu sylw at y gwaith pwysig mae'r elusennau a chwmnïau yma'n ei wneud."

Dywedodd **Huw Potter** o SkyMedia "Gyda chymaint o amser bellach yn cael ei dreulio yn y cartref, mae gwyllo'r teledu yn cynyddu ac mae'n chwarae rôl allweddol o ran rhoi gwybodaeth a diddanwch i bawb. Rydyn ni'n falch o gefnogi'r fenter hon sy'n gallu hyrwyddo elusennau a chwmnïau sy'n helpu gyda'r ymdrech Covid.

Am fanylion pellach ar sut mae manteision ar y cynnig bydd angen cysylltu â Huw Potter neu Dylan Jones o Sky Media, sef asiant hysbysebu S4C. Byddant hefyd yn gallu cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer cynhyrchu hysbysebion neu gyda mynediad at gronfa cynhyrchu hysbysebion Cymraeg S4C.

### Nodiadau:

- Er mwyn manteisio dylid cysylltu â swyddogion SkyMedia yng Nghymru sef Huw Potter [Huw.Potter@sky.uk](mailto:Huw.Potter@sky.uk) neu Dylan Jones [Dylan.Jones@sky.uk](mailto:Dylan.Jones@sky.uk) neu drwy wefan S4C [s4c.cymru/cy/hysbysebu-ar-s4c](https://s4c.cymru/cy/hysbysebu-ar-s4c)
- Noder bod uchafswm ar y munudau o dan y cynllun hwn ac na all S4C warantu gofod i bawb fydd yn ymgeisio.
- Bydd angen i'r elusennau a'r cwmnïau greu eu hysbysebion eu hunain, ond mae cymhorthdal arferol S4C ar gael i hysbysebion iaith Gymraeg.
- Mae hefyd uchafswm ar y cyfraniad sy'n cael ei gynnig ar gyfer costau cynhyrchu hysbysebion Cymraeg.
- S4C fydd yn amserlennu'r hysbysebion ac ni all warantu unrhyw amseroedd penodol.
- Bydd Sky Media yn rhannu'r gofynion manwl ar gyfer hysbysebion, gan gynnwys gofynion Cod BCAP/Clearcast, gofynion technegol a gofynion cyfreithiol megis clirio hawlfraint.